CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# Adroddiad Blynyddol gan Gynghorydd 2017/18

Hwn yw'r adroddiad gan y Cynghorydd isod ar ei weithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid i unrhyw bwrpas arall. Safbwyntiau'r Cynghorydd unigol yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt, o angenrheidrwydd, yn adlewyrchu barn Cyngor Sir Ynys Môn.

**Cynghorydd: Ieuan Williams**
**Grwp: Annibynnol** **Ward: Lligwy**

## 1 - Rôl a Chyfrifoldebau

Rwyf yn Ddirprwy Arweinydd y Cyngor ac yn ddeilydd portffolio dros y Gymraeg a Thechnoleg Gwybodaeth. Yn ychwanegol rydwyf yn cynrychioli'r Cyngor ar Gyngor Cymdeithas Awdurdodau Lleol Cymru ac yn cynrychioli grŵp annibynnol y CLILC ar y Cyngor Partneriaeth rhwng Llywodraeth Leol a Llywodraeth Cymru.

| **Rhwng Mai 2017 a Mawrth 2018, eisteddais ar y prif bwyllgorau / is-bwyllgorau canlynol:** | **Nifer y cyfarfodydd a drefnwyd** | **Nifer a fynychwyd** |
|---|---|---|
| Cyngor | 9 | 8 |
| Pwyllgor Gwaith | 11 | 9 |
| Pwyllgor Penodiadau (Cadeirydd) | 9 | 9 |
| Grwp Tasg Iaith (Cadeirydd) | 4 | 4 |

Mae'r ystadegau a ddarperir yn berthnasol yn unig i'r pwyllgorau a restrir yn y tabl hwn. Nid yw'r ystadegau'n cynnwys presenoldeb mewn cyfarfodydd eraill sy'n ymwneud â gwaith y Cyngor Sir. Gall trefniadau cyflogaeth Aelod hefyd effeithio ar lefelau presenoldeb.

Gall presenoldeb amrywio oherwydd natur gwaith a chyfrifoldebau aelodau - fel deilydd portffolio, cadeirydd pwyllgor neu fel cynrychiolydd y Cyngor ar gyrff allanol, er enghraifft.

Rwyf yn aelod o Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn ac wedi mynychu 1 allan o 6 cyfarfod a drefnwyd. Rwyf hefyd yn aelod o Bwyllgor Adfywio'r Ymddiriedolaeth a heb fynychu'r 2 gyfarfod a drefnwyd

| **Rwy'n cynrychioli'r Cyngor ar y cyrff allanol canlynol:** | **Nifer cyfarfodydd a drefnwyd** | **Nifer a fynychwyd** |
|---|---|---|
| Fforwm Iaith Môn | 10 | 3 |
| Cymdeithas Awdurdodau Lleol Cymru | 5 | 5 |
| Cyngor Partneriaeth | 3 | 2 |
| Menter Môn | 2 | 1 |
| Llywodraethwr – Ysgol Gynradd Goronwy Owen Benllech | 10 | 10 |
| Llywodraethwr – Ysgol Syr Thomas Jones Amlwch | 6 | 5 |

**2 - Gweithgareddau yn yr Etholaeth**

Mae'r Gwaith o roi cyngor neu gymorth i unigolion efo materion amrywiol yn y ward yn gyson. Dros y flwyddyn rwyf wedi cynorthwyo etholwyr gyda materion cynllunio (gwneud ymholiadau ynglŷn â pholisïau cynllunio, adrodd ar achosion lle mae angen barn ar orfodaeth a galw ceisiadau i mewn i bwyllgor. Mae materion priffyrdd yn cael eu codi yn rheolaidd, enghreifftiau yw ceisiadau am ddrychau ar gorneli peryg a'r mater o ddiogelwch yn sgwâr Benllech. Mae'r mater yma o dan ystyriaeth gan swyddogion Priffyrdd ar hyn o bryd a bu cyfarfod diweddar rhyngddynt a rheolwyr Tesco. Byddaf yn cael ceisiadau i roi cymorth lle mae posib i etholwyr gael tai Cyngor, er mai bychan iawn yw dylanwad cynghorwyr yn y maes yma mi allwn helpu gyda llenwi ffurflenni ac esbonio'r system fandio.

Byddaf yn mynychu cymaint o weithgareddau codi arian i Ysgol Goronwy Owen ac sydd bosib, yn ddiweddar bu'm yn ei Ffair Haf a cyn hyn mewn noson fingo.

Rwyf yn gadeirydd Bâd Achub Moelfre ers dros flwyddyn a byddaf yn cadeirio eu cyfarfod rheoli risg misol.

Rwyf yn gefnogol i'r grŵp NA YN ERBYN PEILONAU ac yn ceisio mynychu gymaint o'i cyfarfodydd ac sy'n bosib. Bu'm yn protestio gyda hwy o flaen swyddfeydd y Grid Cenedlaethol ym Mhentir ac ar y bont dros yr A55 ger Pont Britannia.

**3 - Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Cynrychiolais y Cyngor ar y cyd a'r Cynghorydd Carwyn Jones a Phennaeth Cynllunio a Datblygu'r Economi, Dylan Williams mewn cyfarfod a Maer Dulyn yn ddiweddar. Roedd hyn o ganlyniad i gynnig yn y Cyngor Sir gan y Cynghorydd Robert Llewelyn Jones o Gaergybi.

Mynychais gyfarfod gyda Albert Owen a'r Grid Cenedlaethol mis diwethaf yn Llundain i geisio pwyso arnynt pa mor bwysig oedd dod i gwrdd ag Aelodau Cyngor Môn. Nid ydynt wedi cwrdd na chyflwyno ei achos i'r aelodau newydd a etholwyd ym Mai 2017. Ar yr un diwrnod mynychais gyfarfod rhwng y grŵp NA YN ERBYN PEILONAU ac OFGEM.

**4 - Dysgu a Datblygu**

Rwyf wedi mynychu'r mentrau dysgu a datblygu canlynol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (gwybodaeth wedi'i ddarparu gan Gyngor Sir Ynys Môn):

| | |
|---|---|
| Sesiynau Briffio Aelodau ( 3 allan o 12 ) | Mai 2017 – Mawrth 2018 |

**5 – Gweithgareddau a Materion Eraill**

Byddaf yn cwrdd yn wythnosol a'r tîm sy'n arwain ar ddatblygiadau Wylfa Newydd er mwyn cadw golwg ar gynnydd y Cyngor yn ein hymatebion i'r 'DCO' a chynnig y Grid Cenedlaethol.

Byddaf yn cwrdd yn rheolaidd gyda'r rheolwr technoleg gwybodaeth a phennaeth trawsnewid fel deilydd portffolio.

Byddaf yn dirprwyo i'r Arweinydd pan fo angen. Yn ddiweddar bu'r Prif Weithredwr a minnau mewn cyfarfod yn Llanfair-ym-muallt i wrando ar y Gweinidog dros Lywodraeth Leol yn ceisio esbonio ei achos dros adrefnu Llywodraeth Leol.

Ceir rhagor o wybodaeth amdanaf yma:

http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/mgUserInfo.aspx?UID=7&LLL=1

| | |
|---|---|
| **Cynghorydd Ieuan Williams** | **Ebrill 2018** |